

www.primetime.unrealitytv.co.uk

# Joanna Page

*Stacey (Lily Pickering) a Leanne (Joanna Page) mewn golygfa yn y ddrama newydd ar BBC, The Syndicate.*

**Rydyn ni i gyd yn ei hadnabod fel un hanner un o gyplau mwyaf enwog y teledu! Ond mae seren *Gavin and Stacey* wedi cael rhan mewn drama newydd am bump o bobl sy'n ennill y Loteri. Dyma gyfweliad gyda Joanna Page ar gyfer y cylchgrawn *Soapy Soaps*.**

**Sam:** Llongyfarchiadau ar dy ran newydd. Sut deimlad yw e i gael chwarae rhan Cymraes unwaith eto?

**Joanna:** Gwych! O'r Mwmbwls dwi'n dod ac mae gyda fi acen Gymreig naturiol. Pan ges i gynnig y rhan ro'n i'n meddwl y byddai'n rhaid i fi ymarfer acen Gogledd Lloegr gan bod y ddrama yn cael ei lleoli yn Leeds. Ond pan ddywedodd Kay Mellor bod fy nghymeriad i, Leanne, yn dod o rywle arall ac y gallwn ddewis Cymru, ro'n i wrth fy modd!

**Sam:** Wyt ti wedi gorfod defnyddio llawer o wahanol acenion wrth actio?

**Joanna:** Do! Dwi wedi siarad acenion yr Alban a Lerpwl. Mae wedi bod yn hwyl. Yn *Gavin a Stacey* y ces i gyfle i ddefnyddio fy acen fy hun gyntaf ac roedd hynny'n braf!

**Sam:** Pa mor bwysig yw bod yn Gymraes i ti?

**Joanna:** Pwysig iawn. Dwi'n falch o 'ngwreiddiau ac yn teimlo mod i'n gallu gwneud rhywbeth dros Gymru trwy actio. Mi fydd pawb trwy Brydain yn gwylio *The Syndicate* ac mi fydd cael Cymraes yna yn codi ymwybyddiaeth o Gymru fel gwlad.

**Sam:** Beth am i ni sôn am dy ran newydd di ar *The Syndicate* te. . . Rwyt ti'n fam i Stacey on'd wyt ti, a'r peth pwysicaf yn dy fywyd yw ei chadw hi'n saff.

**Joanna:** Ie. Pan mae'r ddrama'n dechrau maen nhw newydd ennill y Loteri ac yn paratoi i fynd i gynhadledd y wasg. Dyw Leanne ddim am fynd achos does arni ddim eisiau tynnu sylw ati ei hunan. Mae'n amlwg ei bod yn dianc rhag ei gorffennol.

**Sam:** Chei di ddim datgelu cynnwys y ddrama, dwi'n gwybod, ond ym mha fath o leoedd oeddech chi'n ffilmio?

**Joanna:** Fe fuon ni'n ffilmio mewn archfarchnad ac mewn siop fechan oedd ar agor ddydd a nos. Roedd yn hwyl i ddechrau ond roedd yn gas gen i weithio'r til, roedd hi'n oer ac roedd fy nhraed i'n brifo!

**Sam:** Ond roeddet ti'n cael rhoi dy draed i fyny mewn gwesty bob gyda'r nos?

**Joanna:** Nago'n! Wrth lwc, mae fy ngŵr, James Thornton, ar *Emmerdale* ac mae gyda ni fflat yn Leeds. Canmil gwell na gwesty. Rydyn ni'n gallu mynd â'r ci am dro gyda'r nos ac ymlacio.

**Sam:** Pe baet ti'n ennill y Loteri go iawn ar beth fyddet ti'n gwario'r arian?

**Joanna:** Wel, dwi ddim yn chwarae'r Loteri ond dwi'n gwybod yn iawn beth fyddwn i'n ei wneud gyda'r arian! Prynu tŷ enfawr gyda thir, cadw llawer o anifeiliaid, sefydlu elusen cŵn, prynu cwch, rhannu gyda theulu a ffrindiau ac yna .... mynd yn ôl i actio!

**Sam:** Diolch am ateb fy nghwestiynau mor onest!